# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cygnor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYSAG**

Dyddiad ac Amser

**3.30 y.h., DYDD MAWRTH, 21AIN TACHWEDD, 2023**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

**(Am Fynediad i'r Cyhoedd – Cysylltwch a Einir Rh Davies)**

Pwynt Cyswllt

**Einir Rh Davies**

**01286 679868**

**EinirRhianDavies@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 13 Tachwedd 2023)

# CYSAG

## AELODAETH (7)

## Plaid Cymru (4)

Y Cynghorwyr

Menna Baines
Elin Walker Jones
Meryl Roberts
Paul John Rowlinson

## Annibynnol (3)

Y Cynghorwyr

Anne Lloyd-Jones
Angela Russell
John Pughe Roberts

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

### Cristnogol a Chrefyddau Eraill ac Argyhoeddiadau Athronyddol Anghrefyddol

| | |
|---|---|
| Nathan Abrams | Iddewiaeth |
| Mr  Mohamed Arabi | Islam |
| Eurfryn Davies | Undeb Bedyddwyr Cymru |
| Bethan Davies Jones | Undeb y Annibynnwyr Cymraeg |
| Edward Parri-Jones | Dyneiddiwr |
| Eirian Bradley Roberts | Yr Eglwys Gatholig |
| Dr Sibani Roy | Hindw |
| Rev. Nick Sissons | Yr Eglwys Fethodistaidd |
| Patrycja Bielak Smith | Bwdhaeth |
| Gwawr Maelor Williams | Eglwys Bresbyteraidd Cymru |
| Naomi Wood | Yr Eglwys yng Nghymru |

### Athrawon

| | |
|---|---|
| Miriam A. Amlyn | NAS/UWT |
| Heledd Jones | NEU |
| Emma Roberts | UCAC |
| Vacant Seat - NAHT | NAHT |

### Aelodau Cyfetholedig

| | |
|---|---|
| Eleri Moss | Penaethiaid Uwchradd |

# R H A G L E N

## 1. GWEDDI NEU FYFYRDOD TAWEL

Cyfle am weddi neu fyfyrdod tawel

## 2. YMDDIHEURIADAU

I Dderbyn Unrhyw Ymddiheuriadau am Absenoldeb

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I Dderbyn Unrhyw Ddatganiad o Fuddiant Personol

## 4. MATERION BRYS

I nodi unrhyw faterion sydd o frys ym marn y Cadeirydd ar gyfer ystyriaeth

## 5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL — 5 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig bod cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf, 2023 yn cael eu harwyddo fel rhai cywir

## 6. DIWEDDARIADAU O GYFARFODYDD CYSAG BLAENOROL

Diweddariadau Gwynedd o Ran :

i. Adroddiad Blynyddol CYSAG 2021 - 2022
ii. Cefnogaeth Arbenigol i'r CYSAG
iii. Gohebiaeth a Ddanfonwyd ar ran CYSAG

## 7. DIWEDDARIAD AR Y GWAITH O DDATBLYGU Y CANLLAWIAU ADDOLI AR Y CYD — 9 - 11

Diweddariad ar y Gwaith o Ddatblygu Canlawiau Addoli ar y Cyd

## 8. MATERION CCYSAGAUC — 12 - 31

I. Adroddiad am Weithgareddau y Gymdeithasfa : Cadeirydd
II. Adroddiad ar Gyfer y Flwyddyn Ariannol 2022/2023 : Trysorydd
III. Aelodaeth Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC 2023/ 2024
IV. Cofnodion Drafft Cyfarfod CCYSAGauC Tymor yr Haf a Gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2023
V. Cyfle i roi barn ar yr ymgynghoriad ar y cymhwyster newydd arfaethedig, Astudiaethau Crefyddol TGAU (dechrau dysgu 2026) (ar wefan CBAC)
VI. Cyfle i gyfrannu at lunio rhaglen gyffrous ar gyfer Cynhadledd 2024 a fydd yn cynnwys seminarau rhyngweithiol ar-lein rhad ac am ddim, yn ogystal â digwyddiad diwrnod y gynhadledd gorfforol.

# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 04/07/2023

**Presenoldeb :**

**Y Cynghorwyr :** Menna Baines, Anne Lloyd Jones, Meryl Roberts a Paul Rowlinson

**Eraill:**

**Cristnogol a Chrefyddau Eraill ac Argyhoeddiadau Athronyddol Anghrefyddol :** Nathan Abrams (Iddewiaeth), Eurfryn Davies (Undeb Bedyddwyr Cymru), Bethan Davies Jones (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg), Y Parchedig Nick Sissons (Yr Eglwys Fethodistaidd) a Gwawr M Williams (Eglwys Bresbyteraidd Cymru)

**Athrawon :** Miriam Amlyn (NAS/UWT), Heledd W Jones (NEU) ac Eleri Moss (Cynrychiolydd Penaethiaid)

**Swyddogion** : Garem P Jackson (Pennaeth yr Adran Addysg), Einir Rh Davies, Ffion E Evans ac M Eirian Roberts (Swyddogion Cefnogi Aelodau), B Mair Huws (Swyddog Adnoddau Cynorthwyol a Chlerc CYSAG) a Glesni M Foulkes (Cyfieithydd)

## 1. GWEDDI NEU FYFYRDOD TAWEL

Agorwyd y cyfarfod gyda gair gan Y Cynghorydd Menna Baines a chyfle am fyfyrdod.

## 2. ETHOL CADEIRYDD

Ail-etholwyd Y Cynghorydd Menna Baines yn Gadeirydd i'r Pwyllgor am y cyfnod 2023/2024

## 3. ETHOL IS-GADEIRYDD

Ail-etholwyd Y Cynghorydd Meryl Roberts yn Is-Gadeirydd i'r Pwyllgor am y cyfnod 2023/2024

## 4. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorwyr Elin Walker Jones, John P Roberts, Angela Russell, Beca Brown ac Eirian Bradley Roberts (Yr Eglwys Gatholig)

## 5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 6. MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw fater brys.

## 7. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

**PENDERFYNWYD** derbyn cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 14 Mawrth, 2023, fel rhai cywir a bu i'r Cadeirydd eu llofnodi.

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYSAG 2021-2022

Diolchwyd am yr adroddiad drafft a nodwyd y canlynol :
3.1 – Aelodaeth - mae angen ychwanegu manylion penderfyniad y Cabinet (cyfarfod 2019) i addasu y cyfansoddiad er mwyn ehangu y gynrychiolaeth o'r crefyddau eraill gan fod hwn yn ychwanegiad cyfansoddiadol pwysig, ynghyd â gwirio enwau yr Undebau Athrawon.

Cyfeiriwyd at wall teipio yn y fersiwn Saesneg, a chwestiynwyd y defnydd o'r term "Penderfyniad" yn yr Adroddiad. Cadarnhawyd y defnyddir "Penderfyniad" mewn perthynas ag addoli ar y cyd, sydd yn wasanaeth Cristnogol yn bennaf, ond yn gallu amrywio o Ysgol i Ysgol, ond nad oedd unrhyw Ysgol wedi gofyn i amrywio yn ystod cyfnod yr Adroddiad

Cadarnhawyd bod Cabinet Cyngor Gwynedd wedi derbyn Canllawiau Llywodraeth Cymru fel Maes Llafur cytunedig mewn cyfarfod blaenorol, ond bod Gwynedd angen creu ei Chynllun ei hun, yn seiliedig ar y Canllawiau, ac unwaith byddai y Cynllun yn derbyn sêl bendith CYSAG y byddai yn dod yn Gynllun Terfynol. Nodwyd y gobaith bod gan ysgolion yr adnoddau angenrheidiol, yn enwedig yn y Gymraeg, er mwyn i'r Cynllun lwyddo.
Rhoddodd y Grŵp ei sêl bendith i'r Adroddiad Blynyddol yn ddarostyngedig i'r ychwanegiadau uchod.

**PENDERFYNWYD**: Derbyn yr Adroddiad Blynyddol Drafft CYSAG 2021-22 yn ddarostyngedig i Adolygu 3.1 i gynnwys cyfeiriad at benderfyniad y Cabinet yn 2019 i addasu'r cyfansoddiad er mwyn ehangu cynrychiolaeth o'r crefyddau ar CYSAG ac i adlewyrchu y newid yn enwau yr Undebau Athrawon.

## 9. DIWEDDARIAD : CANLLAWIAU ADDOLI AR Y CYD

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y drafodaeth ar y canllawiau a gynhaliwyd yn y cyfarfod blaenorol, ble daethpwyd i'r casgliad eu bod gwirioneddol angen eu diweddaru gan eu bod yn cyfeirio at Gristnogaeth yn unig, ac nad oedd yr iaith yn gynhwysfawr erbyn hyn. Yn y cyfarfod hwnnw, bu i CYSAG gytuno i ffurfio Gweithgor i edrych ar y Canllawiau presennol. Adroddwyd, er holi, mai dau enw yn unig gafodd eu rhoi ymlaen ar gyfer y dasg, ac o ganlyniad ni fu modd i'r Gweithgor gyfarfod, ac ni phenodwyd neb i arwain ar y gwaith.

Adroddwyd bod ceisiadau yn dod i law am y ddogfen yn eithaf aml, er ei bod wedi dyddio, ond nid oedd yn cael ei hystyried yn ddogfen fyw. Nodwyd bod y Ddeddfwriaeth yn parhau i fod yr un fath, ac mai ieithwedd y ddogfen sydd wedi dyddio, a bod angen ychwanegu gwybodaeth am grefyddau ar wahân i Gristnogaeth.

Cynigiodd Y Parchedig Nick Sissons edrych ar y ddogfen ac ailgysylltu â'r Aelod arall oedd wedi gwirfoddoli ar gyfer y dasg gan adrodd yn ôl gyda syniadau cychwynnol yn y cyfarfod nesaf. Cwestiynwyd tybed fyddai modd chwilio am arbenigwyr yn y maes, o'r tu allan i'r CYSAG, i roi mewnbwn i'r gwaith?

**PENDERFYNWYD:** Derbyn cynnig y Parchedig Nick Sissons i edrych ar y canllawiau ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf. Gan fod enw arall hefyd wedi ei roi ymlaen yn y cyfarfod blaenorol i eistedd ar y Gweithgor, cytunwyd i gysylltu gyda'r Aelod honno hefyd gan nad oedd yn bresennol.

## 10. CEFNOGAETH ARBENIGOL I'R CYSAG

Atgoffwyd pawb fod cefnogaeth arbenigol Swyddog GwE wedi ei thynnu yn ôl yn 2018, sydd wedi bod yn fater o ofid ac wedi amlygu diffyg arbenigedd yn y maes.

Adroddodd y Pennaeth Addysg ei fod wedi bod yn ceisio cael datrysiad a'i fod erbyn hyn mewn trafodaethau am y posibilrwydd o gomisiynu cefnogaeth arbenigol i'r CYSAG drwy GwE, er mwyn symud y mater yn ei flaen, yn ddarostyngedig i sêl bendith GwE.

**PENDERFYNWYD:** Rhoi sêl bendith i'r Pennaeth drafod y posibilrwydd o gomisiynu cefnogaeth arbenigol i'r CYSAG drwy GwE, gan symud y mater yn ei flaen cyn gynted â phosib.

## 11. MATERION CCYSAGauC

- **i. Canllawiau Ymweld ag Ysgolion**
- **ii. Cyfleoedd Dysgu Proffesiynol Newydd ar Gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**
- **iii. Cofnodion Drafft CCYSAGau 21 Mawrth, 2023**
- **iv. Ymgynghoriad Cymwysterau Cymru: Y Cynnig Llawn o Gymwysterau 14-16**

Nodwyd bod y Canllawiau Ymweld ag Ysgolion yn ddogfen gynhwysfawr a defnyddiol iawn.

O ran y cyfleoedd Dysgu Proffesiynol Newydd ar Gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, nodwyd y dymuniad y byddai deunydd yn yr iaith Saesneg ac yn yr iaith Gymraeg yn cyrraedd yr un pryd. Adroddodd y Pennaeth Addysg ei fod yn gam pwysig a bod gan CYSAG gyfraniad pwysig iawn i'w wneud, a bod llawer o gyfleoedd i ddysgu Addysg Grefyddol o fewn y dyniaethau. Cyfeiriodd hefyd at gyflwyniad a dderbyniwyd gan Lea Crimes ar ddatblygu'r cwricwlwm, oedd yn enghraifft dda o sut i ddatblygu'r cwricwlwm.

Nodwyd bod rhaid cynnig ffyrdd gwahanol o gyflwyno gan edrych ar addysg gychwynnol athrawon, a'i bod yn hollbwysig cadw llygad ar y sefyllfa. Nodwyd yr angen i weld beth fydd yn digwydd gyda TGAU. Efallai bod mwy nag un platfform i leisio barn.

Teimlwyd y byddai yn fuddiol gofyn i GwE gynnal trafodaeth ynglŷn â'r model newydd a'i addasrwydd ar gyfer rhoi sylw digonol i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gan ystyried y ddarpariaeth adnoddau drwy'r iaith Gymraeg. Penderfynwyd hefyd ysgrifennu llythyr am y ddarpariaeth o Adnoddau cyfrwng Cymraeg (i sicrhau eu bod ar gael yr un pryd ag adnoddau Saesneg) yn enw CYSAG, y Pennaeth Addysg a'r Aelod Cabinet Addysg at CBAC, y Gweinidog Addysg a'r Is-bwyllgor Cymraeg.

Nodwyd efallai fod angen defnyddio grym geiriau y Papur Gwyn maes o law fel cyfle pellach i leisio barn.

O ran Cofnodion Drafft CCYSAGau 21 Mawrth, 2023 a'r papurau perthnasol adroddwyd bod gan y CCYSAGau waith diweddaru nifer o ddogfennau, gan gynnwys newid fformat adroddiadau, gan fod canllawiau wedi eu dyddio.

O ran yr Ymgynghoriad Cymwysterau Cymru: Y Cynnig Llawn o Gymwysterau 14-16, cadarnhawyd bod CCYSAGau wedi cyflwyno dadleuon cryf, a dderbyniodd gefnogaeth y CYSAG .

**<u>PENDERFYNWYD :</u>**
i. Canllaw Ymweld ag Ysgolion: dogfen gynhwysfawr a defnyddiol iawn
ii. Cyfleoedd Dysgu Proffesiynol Newydd ar Gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg: gofyn i GwE gynnal trafodaeth ynglŷn â'r model newydd â'i addasrwydd ar gyfer rhoi sylw digonol i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gan ystyried y ddarpariaeth adnoddau drwy'r iaith Gymraeg. Penderfynwyd hefyd ysgrifennu llythyr am y ddarpariaeth o Adnoddau

cyfrwng Cymraeg (i sicrhau eu bod ar gael yr un pryd ag adnoddau Saesneg) yn enw CYSAG, y Pennaeth Addysg a'r Aelod Cabinet Addysg at Brif Weithredwr CBAC, Pennaeth Adran Adnoddau y CBAC, Y Gweinidog Addysg a'r Is-bwyllgor Cymraeg

iii. Cofnodion Drafft : nodi bod gan y CCYSAGau waith diweddaru dogfennaeth

iv. Ymgynghoriad Cymwysterau Cymru: cefnogi ymateb y CCYSAGau

Dechreuodd y cyfarfod am 3.30 p.m. a daeth i ben am 16:45 p.m.

**CADEIRYDD**

**Adlewyrchiadau cychwynnol ar Bolisi Addoli ar y Cyd Gwasanaeth Adran Addysg Cyngor Gwynedd 2010**
**Papur trafod ar gyfer CYSAG**

Y Parchedig Nick Sissons a'r Cynghorydd Elin Walker Jones

Gorchwyl: Adolygu'r Polisi Addoli ar y Cyd.

Cefndir

Mae'r sefyllfa bresennol yn annioddefol; mae'r gyfraith ar Addoli ar y Cyd yn ddigyfaddawd yn ei ofynion ond yn hollol anghyson efo'r sefyllfa bresennol yng Nghymru. Hefyd, mae'n ymddangos nad oes gan Lywodraethau Cymru a San Steffan unrhyw awydd i roi amser tuag at newid y gyfraith. Yn ogystal, mae'n edrych fel bod y system arolygu yn cefnogi'r ysgolion hynny sy'n anwybyddu'r gyfraith. Mae'n edrych fel bod y polisi Addoli ar y Cyd yn cael ei anwybyddu yn rheolaidd gan yr ysgolion, Estyn ac yn wir, y Llywodraethau.

Ymddengys bod CYSAG yn unigryw, oherwydd y goblygiadau cyfreithiol, yn gweithio i sicrhau fod y gyfraith yn cael ei gweithredu. Os felly, beth ddylai CYSAG wneud?

Rhai cwestiynau

Pam nad yw'n llywodraethau yn gweithredu ar fater sy'n yn ei hanfod am iechyd meddwl a lles, hunaniaeth, perthynas pobl ifanc a'u hunain, pobl eraill, ac yn wir, y byd?

Beth yw ymateb yr Eglwys a chyrff Cristnogol eraill i'r sefyllfa bresennol? Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn ffafrio'r ffydd Gristnogol tu hwnt i unrhyw sefydliad crefyddol neu ddyneiddiol arall, felly mi fyddai'n rhesymol disgwyl i'r cyrff yma arwain ar newid. Nid yw'r sefydliadau dyneiddiol wedi bod yn llwyddiannus hyd yn hyn wrth geisio newid y ddeddfwriaeth, er bod eu dadleuon yn synhwyrol ac yn derbyn cefnogaeth gan lawr ar draws y cymunedau ffydd wahanol.

A oes pwrpas felly i adolygu'r polisi hwn neu a ddylem aros tan fod y ddeddfwriaeth yn newid, neu tan fod awydd am newid tu hwnt i CYSAG Gwynedd?

Pryderon Cyfredol: Rationale am ystyried newidiadau i'r Polisi Addoli ar y Cyd

Awgrymwn fod cynnwys moesegol i'r polisi Addoli ar y Cyd gan ei fod yn ceisio cyfarch anghenion ysbrydol. Mae gan Addoli ar y Cyd rôl mewn datblygu sail gwerthoedd a chwmpawd moesol plant a phobl ifanc. Felly, mae'r polisi, ac ymarfer y polisi yn cael dylanwad ar anghenion iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc, gan ofyn ac ateb, os yn bosib, y cwestiynau mawr yna, ynglŷn â phwy ydan ni, ble ydan ni'n mynd? Ein hunaniaeth, ein lle yn y bydysawd, sut ydan ni'n ymddwyn o gwmpas pobl eraill, deall ein hunain a sut ydan ni'n ymddwyn tuag at ein cyd-greaduriaid a'r blaned.

Mae'r argyfwng presennol yn iechyd meddwl pobl ifanc yn awgrymu na ddyliem anwybyddu anghenion ysbrydol plant a phobl ifanc. Rydym yn awgrymu felly y dyliem ysgrifennu at Lywodraeth Cymru a gofyn iddynt ystyried y mater yma o ddifri ac adolygu'r ddeddfwriaeth Addoli ar y Cyd fel mater brys.

Dim ond un o nifer o wahanol grefyddau neu ideolegau yw Cristnogaeth yng Nghymru, ac felly awgrymwn y dylem drafod y syniad y dylai addoli ar y cyd fod yn addoli Cristnogol, neu'n Gristnogol ar y cyfan. Rydym wedi newid aelodaeth CYSAG i gynnwys cynrychiolwyr o grefyddau eraill gan gynnwys y gymuned ddyneiddiol, ac felly, dylai unrhyw ymdrechion i greu polisi addoli ar y cyd ar gyfer ysgolion, neu gynulliad cynhwysol fel mae'r dyneiddwyr yn awgrymu, adlewyrchu'r cymunedau ffydd amrywiol sy'n byw yng Nghymru heddiw.

Yn ogystal, awgrymir y byddai'n ddefnyddiol i blant a phobl ifanc o bob oed o fewn ysgol ddod at ei gilydd, hyd yn oed os ydi hynny ond yn digwydd unwaith yr wythnos, yn hytrach na dim ond o fewn dosbarth neu grŵp oed. Awgrymir bod plant a phobl ifanc yn dysgu oddi wrth ei gilydd, a bod gwerth mewn dod â chymuned yr ysgol gyfan ynghŷd. Mae hyn yn cael ei ddatgan yn y polisi presennol: "Mae Addoli ar y Cyd cynhwysol… yn hyrwyddo y teimlad o gymuned yn yr ysgol (tud.2)."  Dylai'r pwyslais fod yn gymaint ar werthoedd a'r maes ysbrydol ag yw ar draddodiadau crefyddol penodol.

Dylai cynnwys penodol y cynulliad gael ei gyfarch gan athrawon neu gan y rhai sydd ag arbenigedd yn y materion yma. Dylai creu cynnwys penodol ar gyfer y cynulliad gael ei gyflawni gan y rhai sy'n arwain ar y gwaith yn barod, efo cefnogaeth ymarferwyr ffydd a dyneiddiaeth a allai fod ar gael i ymgynghori.

Mae gennym gyfle go iawn fan hyn i wneud gwahaniaeth i iechyd meddwl plant a phobl ifanc, eu hunaniaeth, eu teimlad o berthyn iddyn nhw eu hunaain a'r byd. Mae gennym gyfle i gynnal trafodaeth go iawn am yr hyn sydd yn bwysig. Edrychwn ymlaen i drafod y mater pwysig yma ymhellach.

<u>Argymhellion</u>

<u>Opsiynnau i'w hystyried gan CYSAG</u>

*Opsiwn 1*: Gwneud dim

*Opshiwn 2:* Chwarae efo polisi Addoli ar y Cyd nad yw'n cyfarch anghenion cyfredol.
Manteision: Mae CYSAG yn cyfarfod ei gyfrifoldeb cyfreithiol.
Anfanteision: Colli cyfle i wneud gwahaniaeth go iawn.

*Opshiwn 3:* Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru I ofyn iddynt gymryd y mater o Addoli ar y Cyd neu gynulliad o ddifri, ac adolygu'r ddeddfwriaeth fel mater brys.
Manteision: potensial am newid go iawn os ystyrier y mater o ddifri.
Anfanteision: Bydd yn cymryd amser hir.

*Opsiwn 4:* Cyfaddawd? Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru A chreu polisi newydd sy'n ystyried anghenion iechyd meddwl, ysbrydol a moesol plant a phobl ifanc o ddifri. Polisi sy'n cael ei ysgrifennu gan y rhai sy'n ymgymryd â'r gwaith yma o fewn ysgolion yn rheolaidd. Polisi sy'n rhoi gwerth ar gymuned ysgol-gyfan.

Ystryriaethau pellach

Rydym yn awyddus i gysylltu efo'r ysgolion yng Ngwynedd i adnabod beth yw'r ymarfer presennol. Credwn fod CYSAG wedi gwneud hyn yn y gorffennol? Rydym hefyd yn awyddus i gysylltu efo'r cyrff Eglwysig, fel y gallant hwy ymgyrchu am newid.

Cyflwynwn y myfyrdodau, syniadau, ac opsiynau i'w hystryied yn y cyfarfod CYSAG. Awgrymwn y gall CYSAG ystyried rhai o'r opsiynnau neu nhw i gyd ar gyfer gweithredu a chroesawn unrhyw syniadau amgen.

Diolch yn fawr

Nick ac Elin

CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru
WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

**Adroddiad ar weithgareddau'r Gymdeithas 2022-2023**

Bu'n flwyddyn brysur iawn i'r Gymdeithas, yn enwedig gyda chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru oedd yn dechrau ym mis Medi, y broses o baratoi'r maes llafur cytunedig ar gyfer CGM, ac ymgynghoriad Cymwysterau Cymru.

1. **Cyfarfu'r Gymdeithas dair gwaith eleni**.

Cynhaliwyd ein cyfarfod Hydref ar 16 Tachwedd 2022 ac fe'i lletywyd gan CYSAG / CYS Blaenau Gwent trwy TEAMS. Cynhaliwyd ein cyfarfod gwanwyn ar 21 Mawrth 2023 dan adain CYSAG /CYS Sir Benfro trwy Zoom. Cynhaliwyd ein cyfarfod Haf, heddiw, dan adain CYSAG / CYS Sir Ddinbych trwy Zoom. Rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth y barhaus CYSAGau / CYSau wrth iddynt gynnal y cyfarfodydd hyn.

2. **Cyfarfu'r Pwyllgor Gwaith ar dri achlysur:**

5 Hydref 2022 (TEAMS), 8 Chwefror 2023 (Zoom) a 17 Mai 2023 (Zoom), gyda phob un ohonynt yn digwydd ar-lein trwy naill ai TEAMS neu Zoom. Roedd gan y Pwyllgor Gwaith agenda lawn drwy gydol y flwyddyn a oedd yn cynnwys yr eitemau a'r gweithgareddau a ganlyn.

a. Parhau i ystyried ac ymateb i ddatblygiadau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â CGM ac AG o fewn y Cwricwlwm i Gymru.
b. Cyngor a chefnogaeth a roddir i ymgynghorwyr a CYSau yng Nghymru mewn perthynas â meysydd llafur cytunedig lleol i CGM, trefniadau gwaith CYSAGau / CYSau, yn ogystal â materion eraill.
c. Cyfarfu cynrychiolwyr o Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC (gyda chynrychiolydd PYCAG) â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru fel rhan o'n cylch rheolaidd o gyfarfodydd. Roedd y cyfarfodydd hyn yn gyfle i godi materion o bwys i GYSAGau / CYSau lleol.
d. Ar gais Llywodraeth Cymru, gofynnwyd i CCYSAGauC gynnal adolygiad desg anffurfiol o'r meysydd llafur cytunedig ar gyfer CGM. Ymgymerodd tîm o arbenigwyr CCYSAGauC â'r dasg ar ran y Pwyllgor Gwaith, a chyflwynwyd yr adroddiad i Lywodraeth Cymru ar 27 Mawrth 2023. Mae'r adroddiad yn rhan o ddull cefnogol ehangach a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru yn ystod camau cynnar cyflwyno'r cwricwlwm ac mae hefyd yn cynnig cyfle gwerthfawr i rannu arfer ledled Cymru o fewn cyd-destunau penderfyniad a chydweithio lleol.

e. Cyhoeddwyd ffrwyth cyntaf y bartneriaeth fawr genedlaethol i ddysgu proffesiynol rhwng Llywodraeth Cymru a CCYSAGauC ar Hwb Llywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd y swp cyntaf o fodiwlau dysgu proffesiynol ym mis Mawrth 2023, a oedd yn cynnwys pum rhestr chwarae ar gyfer penaethiaid, ysgolion uwchradd, cynradd, blynyddoedd cynnar ac ADY. Parhaodd y gwaith ar yr ail a'r trydydd swp o fodiwlau. Daeth y fenter hon i fodolaeth wrth i CCYSAGauC godi'r angen am ddysgu proffesiynol cenedlaethol sylfaenol o'r fath a datblygu cynnig cadarn i'w ystyried gan gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru. Mae ansawdd yr holl adnoddau wedi'u sicrhau'n drylwyr cyn eu cyhoeddi ar Hwb Llywodraeth Cymru.
f. Cyfarfu cynrychiolwyr o Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC (yn aml gyda chynrychiolydd o PYCAG) â sefydliadau amrywiol yng Nghymru a'r tu allan ar sawl achlysur yn ystod y flwyddyn. Yng Nghymru roedd hyn yn cynnwys cyfarfod Estyn a hefyd cyfarfod â'r rhai sy'n gweithio ar y canllawiau Ysgolion Bro a pherthnasedd y Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ynddyn nhw. Roedd cyfarfodydd eraill yn cynnwys y rhai â Hybiau Addysg Grefyddol Rhanbarthol a Chyngor AG Cymru a Lloegr, yn codi cwestiynau am y berthynas rhwng y sefydliadau a'r effeithiau posibl ar CGM wrth gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Yn ogystal, cafwyd cyfarfod gyda chynrychiolwyr NASACRE i archwilio cysylltiadau yn y dyfodol. Mynychodd cynrychiolwyr o Gymdeithas CYSAGau Cymru ddathliad 30 mlynedd PYCAG a'r Cyfarfod Blynyddol.
g. Mae CCYSAGauC wedi parhau i ddarparu fforwm a chefnogaeth ar gyfer arweiniad ar ymgynghoriadau cenedlaethol sy'n effeithio ar CGM yng Nghymru. Eleni cafwyd dau ymgynghoriad gan Cymwysterau Cymru yn ymwneud â'r Cymhwyster TGAU Astudiaethau Crefyddol a'r Cynnig Cymwysterau Llawn.
h. Yn nhymor y gwanwyn, tanysgrifiodd CCYSAGauC i gyfrif Zoom i alluogi cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd. Ar ôl archwilio sawl opsiwn, mae CCYSAGauC yn falch o fod mewn sefyllfa i adnewyddu ei hymrwymiad i gyfarfodydd dwyieithog, ar ôl symud ar-lein yn ystod cyfnod Covid.
i. Paratoadau ar gyfer Cynhadledd fawr CCYSAGauC i CGM mewn partneriaeth â PYCAG .
j. Darparu cyllid i athro/athrawes fynychu cynhadledd EFTRE.

### 3. Cyfrifon:

Rhannwyd adroddiad y Trysorydd ar gyfer 2021-2022 yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol haf 2022. Cyflwynwyd datganiad o gyfrifon ac adroddiad yn egluro'r wybodaeth. Nodwyd bod incwm o £7,722.90 yn fwy na gwariant am y flwyddyn. Mae pob CYSAG / CYS wedi talu eu tanysgrifiadau. Nodwyd bod y sefyllfa ariannol yn parhau i fod mewn cyflwr iach a bod lefel yr arian oedd ar gael i CCYSAGC, i ariannu ei gweithgareddau arfaethedig, yn galonogol. Gwnaethpwyd yr argymhelliad i godi'r tanysgrifiad blynyddol yn unol â chwyddiant o 3% i £495a chynigiwyd a chytunwyd ar hwn.

**4. Aelodau newydd y Pwyllgor Gwaith** :

Yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Haf 2022 etholwyd tri aelod i'r pwyllgor gwaith am y cyfnod 2022-2025: Vicky Barlow (Sir y Fflint); Mathew Maidment (RhCT); Louise Brown (Sir Fynwy). Etholwyd Edward Evans yn Is-gadeirydd **.**

Cymerodd Tania ap Sion swydd y Gadair, a symudodd Rachel Samuel i swydd y Cyn Gadeirydd diwethaf.

**5. Gwelliannau i gyfansoddiad CCYSAGauC:**

Yng Nghyfarfod Blynyddol Haf 2022 derbyniodd a chymeradwyodd aelodau CCYSAGauC newidiadau i gyfansoddiad y Gymdeithas.

**6. Cyflwyniadau PYCAG a CCYSAGauC:**

Gan nad oedd cyfarfodydd wyneb yn wyneb, mae cyflwyniadau PYCAG wedi'u cadw i'r lleiafswm ac yn canolbwyntio ar y flaenoriaeth fwyaf uniongyrchol.

- Cafodd cyfarfod Blaenau Gwent ar 16 Tachwedd 2023 gyflwyniad gan Rachel Samuel a Paula Webber ar Ymgynghoriad Cymwysterau Cymru: TGAU Newydd – Astudiaethau Crefyddol.

- Cafodd cyfarfod Sir Benfro ar 21 Mawrth 2023 gyflwyniad Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol gan Libby Jones ar yr adnoddau dysgu proffesiynol sy'n cael eu datblygu gan CCYSAGC ac a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar Hwb Llywodraeth Cymru.

- Yn y cyfarfod heddiw yn Sir Ddinbych cawsom gyflwyniad gan Leah Crimes, Pennaeth Ysgol y Santes Ffraid yn Ninbych ar ' Ymarfer sy'n dod i'r amlwg o safbwynt ysgol "ffydd"'.

Fel Cadeirydd Cymdeithas CYSAGau Cymru, hoffwn ddiolch i'n holl GYSAGau / CYSau am eu hymrwymiad i'r Gymdeithas a'u cefnogaeth. Hefyd, am holl waith caled aelodau ein Pwyllgor Gwaith, hebddyn nhw ni fyddai ein gweithgareddau yn bosibl.

**CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU**

**CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL – 19 MEHEFIN, 2023**

**ADRODDIAD GAN:** **Y Trysorydd**

**TESTUN:** **Adroddiad am Flwyddyn Ariannol 2022/2023**

---

**ADRODDIAD AR GYFER:** **Gwybodaeth a Phenderfyniad**

---

**DATGANIAD O GYFRIFON 2022/2023**

Ynghlwm, fel Atodiad i'r adroddiad hwn, mae'r Datganiad Cyfrifon a archwiliwyd yn annibynnol ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/2023. Bydd yr Aelodau'n nodi bod incwm, yn ystod y flwyddyn, wedi rhagori ar wariant o £8969.44, o'i gymharu â £7,722.90 yn 2021/2022. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, derbyniwyd tanysgrifiadau gan 16 CYSAG, ac mae'r tanysgrifiadau gan weddill y CYSAGau bellach wedi dod i law. Mae'n braf adrodd bod tanysgrifiadau, unwaith eto, wedi'u talu ar gyfer pob CYSAG. Mae'n dda gallu adrodd bod incwm wedi rhagori ar y gwariant eto eleni ac o swm sylweddol. Rhoddir rhagor o wybodaeth isod am y rhesymau dros y cynnydd ers y llynedd. Dechreuodd y flwyddyn ariannol gyda balans o £45,502.79 a daeth i ben gyda balans o £54,472.23. Mae cyllid CCYSAGauC, felly, yn parhau i fod mewn cyflwr iach ac mae lefel y cyllid sydd ar gael i CCYSAGC, i ariannu ei gweithgareddau arfaethedig, yn galonogol. Bydd yr Aelodau wedi nodi bod balans yr arian wedi cynyddu'n gyson yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae hyn yn rhan o'r cynllun i sicrhau bod cyllid ar gael ar gyfer cynhadledd nesaf CCYSAGauC.

a) **Derbynebau**

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, prif ffynhonnell incwm CCYSAGauC yn ystod 2022/2023 fu'r tanysgrifiadau blynyddol a dalwyd gan aelod-GYSAGau. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol, yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol CCYSAGauC 2001, y penderfynwyd codi lefel y tanysgrifiadau yn unol â lefel chwyddiant yn flynyddol. Y tanysgrifiad blynyddol, felly, ar gyfer 2022/2023 oedd £495.00 sydd wedi arwain at incwm o £7,920.00. Mae'r ffigwr hwn yn cynrychioli'r 16 o danysgrifiadau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ariannol, a braf yw adrodd bod tanysgrifiadau gweddill y CYSAGau bellach wedi'u talu. Felly, gallaf adrodd bod yr holl danysgrifiadau ar gyfer 2022/2023 bellach wedi dod i law. Roedd y derbyniadau hefyd yn cynnwys y taliad hwyr o £1,440.00, sy'n cynrychioli 3 tanysgrifiad o £480.00 yn ymwneud â blwyddyn ariannol 2021/2022.

Y ffynhonnell incwm flynyddol reolaidd arall i CCYSAGauC yw Llog y Banc, sef £20.66 yn 2022/2023, cynnydd o £20.10 ar £0.56, sef y swm a dderbyniwyd yn 2021/2022. Arhosodd y cyfradd llog yn isel ar ddechrau'r flwyddyn ond cynyddodd yn ystod y flwyddyn. Cyfanswm y llog a dalwyd ar Gyfrif Rheolwr Arian Busnes CCYSAGauC yn ystod y chwarter cyntaf oedd £0.68, a'r llog a dalwyd yn ystod y chwarter diwethaf oedd £12.83. Er bod hwn yn gam i'r

cyfeiriad cywir, mae’n amlwg, fel y nodwyd eisoes, y bydd cryn amser cyn y bydd incwm sylweddol yn dod i law drwy Log y Banc.

Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd CCYSAGauC daliad o £4,250.00 gan Lywodraeth Cymru. Roedd y taliad hwn mewn ymateb i waith, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a wnaed gan CCYSAGauC wrth gynnal adolygiad anffurfiol o feysydd llafur cytûn. Swyddogion Llywodraeth Cymru a gysylltodd â CCYSAGauC gyda chais i'r gwaith hwn gael ei wneud, sy'n arwydd o'u parch mawr at gymhwysedd a phroffesiynoldeb CCYSAGauC. Yn anffodus, derbyniwyd y taliad hwn gan CCYSAGauC ar 31 Mawrth, 2023, sy'n golygu, tra bod yr incwm wedi'i gynnwys ym mlwyddyn ariannol 2022/2023, bod y taliadau a wnaed yn ei erbyn yn cael eu cofnodi ym mlwyddyn ariannol 2023/2024. Mae hyn wedi chwyddo'r ffigwr incwm dros wariant a ffigwr mwy realistig fyddai £4,719.44.

b) **Gwariant**

Yn ystod 2022/2023 bu gwariant is na'r arfer hefyd. Eleni nid oedd unrhyw daliadau mewn perthynas â theithio a llety swyddogion gan fod yr holl gyfarfodydd wedi bod yn rhai rhithwir, ac wedi'u cynnal drwy'r llwyfannau Teams neu Zoom. Yn ogystal, ni chafwyd unrhyw geisiadau i ryddhau staff addysgu i fynychu cyfarfodydd gan eu bod, yn gyffredinol, wedi'u cynnal ar adegau a oedd yn gyfleus i’r aelodau. Ni chafwyd chwaith unrhyw geisiadau i dalu costau mynychu cynadleddau a digwyddiadau tebyg eraill.

Mae’r meysydd gwariant yng nghyfrifon 2022/2023 fel a ganlyn:-

Cyfanswm cost galw cyfarfodydd oedd £1055.88 ar gyfer cyfieithu dogfennau, o’i gymharu â £1392.53 yn 2021/2022. Nid oedd unrhyw gostau eraill yn gysylltiedig â chynnal cyfarfodydd tymhorol CCYSAGauC a chyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith gan fod y rhain i gyd yn cael eu cynnal yn rhithiol drwy Teams ac eithrio cyfarfod Gwanwyn CCYSAGauC. Cynhaliwyd hwn trwy'r Platfform Zoom gan fod y platfform hwn yn cefnogi cyfieithu ar y pryd.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod trefniadau ysgrifenyddol CCYSAGauC wedi parhau'n ddigyfnewid. Mae swydd yr Ysgrifennydd Cydgysylltu wedi parhau gyda'r rôl o oruchwylio'r swyddogaeth ysgrifenyddol ond heb yr ystod lawn o weithgareddau ysgrifenyddol. Mae'r swydd hon yn dal i ddenu honorariwm o £1,500.00 ac, fel arfer, telir hwn fesul tymor. Cefnogir yr Ysgrifennydd Cydgysylltu gan Ysgrifennydd Cynorthwyol ond, ar hyn o bryd, ni thelir honorariwm am y swydd hon. Mae'r costau ysgrifenyddol wedi'u lleihau trwy ddefnyddio dulliau cyfathrebu electronig ac ni wnaed unrhyw hawliadau am dreuliau ysgrifenyddol yn ystod y flwyddyn. Mae swydd yr Ysgrifennydd Cofnodion hefyd yn denu honorariwm o £1,500.00 ond nid yw'r swydd wedi'i llenwi ers ymadawiad deiliad blaenorol y swydd. Gydag ymadawiad yr Ysgrifennydd Cofnodion, prynwyd gwasanaethau unigolyn a oedd yn fodlon cofnodi'r cyfarfodydd, o bell, o recordiadau o’r cyfarfodydd. Daeth costau'r gwasanaeth hwn, am y flwyddyn ariannol ddiwethaf, i £1,294.55 ac maent o fewn yr honorariwm a fyddai wedi'i dalu i Ysgrifennydd Cofnodion. Mae'r taliad

yn ymwneud â swm gwirioneddol y gwaith dan sylw, yn hytrach nag honorariwm. Mae CCYSAGauC yn ffodus i allu sicrhau gwasanaethau unigolyn sy'n gallu darparu cofnodion o ansawdd uchel o'r cyfarfodydd a hyd yn hyn, mae'r trefniant hwn wedi gweithio'n dda.

Bydd yr Aelodau'n cofio bod CCYSAGauC, beth amser yn ôl, wedi cynhyrchu dogfen o'r enw 'Rheoli'r Hawl i Dynnu'n Ôl o Addysg Grefyddol', a gafodd dderbyniad da iawn. Gan fod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wedi'u cynnwys ym maes Dyniaethau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, lle nad oes hawl tynnu'n ôl ohono, cytunwyd y byddai copïau dros ben o'r llyfr yn cael eu dosbarthu i awdurdodau lleol a Chyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol Cymru, cyn gweithredu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn llawn, a chost dosbarthu'r rhain oedd £306.88.

Cyfanswm Treuliau'r Trysorydd oedd £44.24, sy'n debyg iawn i £46.81, sef lefel y gwariant yn 2021/2022. Mae'r treuliau hyn yn ymwneud yn bennaf â chostau postio a deunydd ysgrifennu.

Yn ystod y flwyddyn, gwariwyd cyfanswm o £298.00 ar Danysgrifiadau Aelodaeth sy'n debyg i £388.00, sef y swm a wariwyd yn 2021/2022. Yr unig wahaniaeth oedd bod dau daliad o £99.00 i'r Cyngor AG yn 2021/2022 – un yn ymwneud â 2020/2021 a'r llall yn ymwneud â 2021/2022.
Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:-

- Y Cyngor AG ar gyfer 2022/2023 - £99.00
- EFTRE 2022 - £90.00
- Y Rhwydwaith Rhyng-ffydd 2022 - £100.00

Talwyd y swm o £100.67 am gynnal gwefan CCYSAGauC. Mae'n siŵr y bydd yr aelodau'n cytuno bod gwefan o ansawdd uchel yn adnodd ardderchog ac yn chwarae rhan werthfawr wrth godi proffil CCYSAGauC yn ogystal â darparu ffynhonnell o wybodaeth mewn perthynas ag Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd. Cyflawnwyd hyn gyda datblygiad y wefan newydd a bydd hon yn darparu cefnogaeth ragorol i CCYSAGauC. Yn ogystal, bydd yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth am Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg, yn ogystal ag Addoli ar y Cyd ar gyfer CYSAGau, athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill.

Hon yw blwyddyn lawn gyntaf Ffioedd Banc. O 1 Tachwedd 2021, newidiodd HSBC Gyfrif Cymunedol CCYSAGauC (cyfrif cyfredol) yn Gyfrif Banc Elusennol. Mae ffi fisol o £5.00 ar y cyfrif hwn a chodir £0.40 y siec am sieciau a delir i mewn ac allan o'r cyfrif dros y cownter. Cyfanswm y taliadau ar gyfer 2022/2023 oedd £70.00. Yn ffodus, dim ond 2 awdurdod a dalodd danysgrifiadau trwy siec eleni a dim ond 19 siec a godwyd o fewn y flwyddyn ariannol.

Gwahoddir yr aelodau i dderbyn a mabwysiadu'r datganiad cyfrifon atodedig.

**<u>TANYSGRIFIADAU BLYNYDDOL 2023/2024</u>**

Wrth ystyried tanysgrifiad blynyddol priodol fesul CYSAG ar gyfer aelodaeth o CCYSAGC yn ystod blwyddyn ariannol 2023/2024, bydd yr aelodau'n ymwybodol bod y penderfyniad wedi'i wneud yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol CCYSAGC 2001 y byddai'r tanysgrifiad i CCYSAGC yn cynyddu yn y dyfodol yn unol â chwyddiant.

Mae'n bwysig bod CCYSAGauC yn dilyn yr arfer hwn er mwyn sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i dalu costau parhaus gweithgareddau CCYSAGauC, gan gynnwys costau cyfarfod, costau gweithredu, treuliau swyddogion, honoraria swyddogion a thanysgrifiadau. Er na wynebwyd rhai o'r costau hyn ym mlwyddyn ariannol 2022/2023, maent yn debygol o ddigwydd ym mlwyddyn ariannol 2023/2024. Yn ogystal, mae angen i CCYSAGauC fod â digon o adnoddau ar gael i dalu costau digwyddiadau Cymru Gyfan, megis cynadleddau cenedlaethol, ac i'w alluogi i gymryd rhan mewn mentrau eraill i gefnogi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, ynghyd ag Addoli ar y Cyd ledled Cymru, gan gynnwys darparu hyfforddiant pellach a pharatoi cyhoeddiadau. Er bod cyllid CCYSAGauC mewn cyflwr iach ar hyn o bryd, mae'n bwysig bod balans sylweddol yn cael ei gynnal er mwyn i CCYSAGauC allu, trefnu digwyddiadau cenedlaethol pellach yn hyderus ac ymgymryd â mwy o brosiectau.

Fodd bynnag, yng nghyfarfod diweddar Pwyllgor Gwaith CCYSAGC, cytunwyd, yng ngoleuni'r amgylchiadau ariannol anodd presennol, a brofir gan Awdurdodau Lleol, na ddylid codi'r tanysgrifiad i CCYSAGauC ar gyfer 2023/2024. Felly,

**ARGYMHELLIR** bod y tanysgrifiad blynyddol fesul CYSAG ar gyfer aelodaeth o CCYSAGC yn ystod blwyddyn ariannol 2023/2024, yn aros ar £495.00, sef yr un lefel â thanysgrifiad 2022/2023.

## <u>TALU TREULIAU</u>

Bydd yr Aelodau'n cofio bod y trefniadau canlynol ar gyfer talu treuliau naill ai wedi'u cytuno yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2020 CCYSAGC neu wedi'u cytuno wedyn: -

- taliad o 45 ceiniog y filltir i swyddogion sy'n gwneud gwaith ar ran CCYSAGauC lle nad ydynt yn gallu hawlio gan eu CYSAGau lleol ac ad-daliad ar yr un lefel i siaradwyr sy'n cyfrannu at gyfarfodydd CCYSAGauC;
- ad-dalu costau parcio gwirioneddol i swyddogion, mewn perthynas â chynnal busnes CCYSAGauC;
- lle defnyddir trafnidiaeth gyhoeddus yn hytrach na char preifat, ad-dalu prisiau tocynnau trên/bws gwirioneddol hyd at lefel y pris safonol ar y ddealltwriaeth y manteisir ar drefniadau arbed lle bynnag y bo modd;
- ad-dalu costau cynhaliaeth rhesymol mewn perthynas â swyddogion CCYSAGauC a siaradwyr yng nghyfarfodydd CCYSAGauC;
- ad-dalu costau gwirioneddol llety dros nos ar y ddealltwriaeth y chwilir am brisiau rhesymol;
- mewn perthynas ag athrawon yn cael eu rhyddhau o'r ysgol i wneud cyflwyniadau yng nghyfarfodydd CCYSAGC, bydd CCYSAGauC yn ariannu hyd at un diwrnod llawn o gyflenwi. Os bydd hyn yn profi'n annigonol, rhaid cysylltu'n gynnar â'r Trysorydd, a fydd yn cael y disgresiwn i gytuno ar lefel uwch o gyflenwi mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd.

- Nid yw aelodau CYSAGau ac eraill sy'n mynychu prif gyfarfodydd CCYSAGauC yn gymwys i hawlio treuliau gan CCYSAGC ond dylent hawlio oddi wrth eu CYSAG eu hunain neu'r corff y maent yn ei gynrychioli;
- bydd yr Ysgrifennydd Cydgysylltu yn derbyn honorariwm blynyddol o £1,500. Os cymerir y swydd gan athro neu athrawes mewn swydd, yna byddai athrawon cyflenwi yn cael eu talu yn ychwanegol at yr honorariwm a’r treuliau presennol (teithio, llety a chynhaliaeth angenrheidiol). Telir costau cyflenwi i'r ysgol a thelir yr honorariwm i'r swyddog unigol;
- os caiff ei benodi, bydd yr Ysgrifennydd Cofnodion yn derbyn honorariwm blynyddol o £1,500 ynghyd â threuliau a llety dros nos os bydd angen. Os bydd y trefniant presennol yn parhau, bydd CCYSAGauC yn talu anfonebau a gyflwynir gan yr unigolyn sy'n paratoi cofnodion o recordiadau cyfarfodydd yn unol â lefel y gwaith dan sylw;
- Gall aelodau Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC hawlio treuliau oddi wrth CCYSAGauC am fynychu Cyfarfodydd Pwyllgor Gwaith lle na allant hawlio treuliau o rywle arall;
- Mae aelodau o Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC, sy'n athrawon mewn swydd, yn gymwys i hawlio costau cyflenwi er mwyn eu rhyddhau i fynychu cyfarfodydd. Dylai'r cais gael ei gyflwyno i'r Trysorydd gan yr ysgol sy'n cyflogi a dylai gynrychioli'r costau gwirioneddol;
- er bod rhywfaint o aelodaeth gyffredin, mae PYCAG yn endid ar wahân ac ni all CCYSAGauC ariannu eu cyfarfodydd na'u treuliau;
- lle mae aelodau PYCAG yn gwneud gwaith ar ran CCYSAGauC, bydd CCYSAGauC yn cyfrannu at eu treuliau. Rhaid cyflwyno ceisiadau, ymlaen llaw, i’r Trysorydd, a fydd yn cael disgresiwn i’w hystyried mewn ymgynghoriad â’r Cadeirydd neu’r Is-Gadeirydd;
- Bydd CCYSAGauC, o bryd i'w gilydd, yn talu ffioedd i bobl fynychu cyfarfodydd neu wneud gwaith ar ddiwrnodau gwaith proffesiynol os cytunwyd ar hyn ymlaen llaw. Rhaid cyflwyno ceisiadau, ymlaen llaw, i’r Trysorydd, a fydd yn cael disgresiwn i’w hystyried mewn ymgynghoriad â’r Cadeirydd neu’r Is-Gadeirydd. Disgwylir y bydd tystiolaeth o'r gwaith a wnaed a gallai hwn fod yn bapur neu'n adroddiad yn dilyn y cyfarfod a fynychwyd.

**ARGYMHELLIR** cymeradwyo'r trefniadau uchod ar gyfer 2023/2024.

CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru
WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

**Aelodaeth Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC / Membership of WASACRE Executive Committee 2023/2024**

Cadeirydd / Chair – Rev. Dr Tania ap Sion (Wrecsam / Wrexham)

Is-Gadeirydd / Vice Chair – Rev. Edward J. Evans (Pen-y-bont / Bridgend)

Ysgrifennydd / Secretary – Alice Parry (Pen-y-bont / Bridgend)

Ysgrifennydd Cynorthwyol / Assistant Secretary - Libby Jones (Wrecsam / Wrexham)

Trysorydd / Treasurer – John Mitson (Powys)

Cyn-Gadeirydd diweddaraf / Immediate Past Chair – Rachel Samuel (CNP / Neath Port Talbot)

Cynrychiolydd o PYCAG / Representative of NAPfRE – Paula Webber

**Aelodau cyffredinol / Executive members:**

Kathy Riddick - Blaenau Gwent /Blaenau Gwent (2021-2024)

Vicky Barlow - Sir y Fflint / Flintshire (2022- 2025)

Louise Brown - Sir Fynwy / Monmouthshire (2022-2025)

Mathew Maidment - Rhondda Cynon Taff / Rhondda Cynon Taf (2022-2025)

Jennie Downes - Sir Ddinbych / Denbighshire (2023-2026)

Marged Williams and Tyler Saunders - Bro Morgannwg / Vale of Glamorgan (2023-2026) *

*rhannu swydd / job share

CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru
WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

***Cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru,***
***Rhithwir trwy Zoom***
***19 Mehefin 2023***
***10.00 am - 12.00 pm***

DRAFT

**Presenoldeb**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ynys Môn / *Anglesey***<br>Owen Davies (OD)<br><br>**Blaenau Gwent**<br>Chris Abbas (CA)<br>Hayley Jones (HJ)<br><br>**Pen-y-bont ar Ogwr / *Bridgend***<br>Alice Parry (AP)<br>Donna Graves (DG)<br><br>**Caerffili/ *Caerphilly***<br>John Taylor (JT)<br>Marina Chacon-Dawson (MCD)<br>Hayley Jones (HJ)<br><br>**Caerdydd / *Caerdydd***<br>John Taylor (JT)<br>Donna Graves (DG)<br><br>**Sir Gaerfyrddin / *Carmarthenshire***<br>Jennifer Harding Richards (JHR)<br><br>**Ceredigion**<br>Keith Evans (KE)<br>Mary Davies (MD)<br><br>**Conwy**<br>Phil Lord (PL)<br>Collette Owen (CO)<br>Ellie Chard (CE) | **Sir Ddinbych / *Denbighshire***<br>Phil Lord (PL)<br>Geraint Davies (GD)<br>Leah Crimes (LC)<br>James Brown (JB)<br>Ruth Thackray (RT)<br><br>**Sir y Fflint / *Flintshire***<br>Vicky Barlow (VB)<br>Lyn Oakes (LO)<br><br>**Gwynedd**<br>Paul Rowlinson (PR)<br>Eurfryn Davies (ED)<br><br>**Merthyr Tudful / *Merthyr Tudful***<br>Donna Graves (DG)<br><br>**Sir Fynwy / *Monmouthshire***<br>Louise Brown (LB)<br>Hayley Jones (EAS)<br>Suzanne Gooding (SG)<br><br>**Castell-nedd Port Talbot / *Castell-nedd a Port Talbot***<br>Nia Jenkins (NJ)<br>Rachel Samuel (RS)<br><br>**Casnewydd / *Casnewydd***<br>Hayley Jones (HJ)<br>Huw Stephens (HS) | **Sir Benfro / *Pembrokeshire***<br>Jennifer Harding Richards (JHR)<br><br>**Powys**<br>John Mitson (JM)<br><br>**Rhondda Cynon Taf**<br>Mathew Maidment (MM)<br>Donna Graves (DG)<br><br>**Abertawe / *Swansea***<br>Jennifer Harding Richards (JHR)<br><br>**Torfaen**<br>Hayley Jones (HJ)<br><br>**Bro Morgannwg / *Bro Morgannwg***<br>Kathy Riddick (KR)<br>Donna Graves (DG)<br><br>**Wrecsam / *Wrexham***<br>Tania ap Siôn (TS)<br>Libby Jones ( LJ **)**<br><br>**NAPfRE**<br>Paula Webber (PW) | ***Sylwedyddion:***<br><br>**MAGC**<br><br>**CBAC**<br>Chris Owens (CO)<br><br>**Estyn**<br>Aranwen Morgans-Thomas (AMT)<br><br>**Llywodraeth Cymru**<br><br>**Yr Eglwys yng Nghymru**<br><br>**Gwasanaeth Addysg Gatholig**<br>Angela Keller (AK)<br><br>**Cofnodion (o'r recordiad)**<br>Jo Nicholls (JNI) |

**Cofnodion y cyfarfod**

**1. Cyflwyniad a chroeso**

Croesawodd TaS bawb i gyfarfod yr haf a diolchodd i Awdurdod Lleol Sir Ddinbych a CYSAG/CYS am letya'r cyfarfod. Croesawodd a chyflwynodd TaS Bennaeth Gwasanaeth Addysg Sir Ddinbych, Geraint Davies.

Croesawodd Geraint Davies bawb i'r cyfarfod yn ffurfiol. Dechreuodd Geraint y cyfarfod gyda'r canlynol:

Mae'r cwricwlwm wedi mynd trwy gryn dipyn o newid dros y blynyddoedd diwethaf. Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wedi cymryd lle Addysg Grefyddol. Mae'r gyfraith wedi ffurfioli cynnwys argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol ac erbyn hyn mae'n rhaid i'r sector gwirfoddol a gynorthwyir ystyried maes llafur cytunedig lleol hefyd.

Bu'r newidiadau hyn yn her i'n hysgolion, gyda phob her yn dod â chyfleoedd cyffrous i staff fod yn greadigol i ddarparu cwricwlwm gwirioneddol leol. Mae'r cyfleoedd i sicrhau bod CGM yn bwydo i'r pedwar diben yn rhan annatod o'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae'r newidiadau hyn yn caniatáu i'n disgyblion fod yn unigolion iach a hyderus a chael gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol. Mae'r cyfleoedd hyn yn helpu i'w siapio i ddod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus ac i barchu hawliau ac anghenion pobl eraill yn ein cymdeithas amrywiol.

Rhoddodd Geraint Davies enghreifftiau o hanes Sir Ddinbych o ran ffydd a chred a myfyriodd ar sut y bydd yn newid yn y dyfodol.

Gwelodd yr 21ain ganrif gynnydd mawr mewn technoleg ac mae hynny wedi effeithio ac yn parhau i effeithio ar ein bywydau.

Mae angen arfogi ein pobl ifanc â'r sgiliau i ymgysylltu'n feirniadol â chredoau a'r buddion o'r gymdeithas y maent yn byw ynddi a chroesawu'r cymunedau cynyddol ryng-ddiwylliannol yr ydym i gyd yn eu gwasanaethu.

Diolchodd TaS i Geraint Davies am ei gyflwyniad ac am letya'r cyfarfod.

**2. Myfyrdod tawel**

Ym mis Mai 2023, cynrychiolodd LJ a TaS CCYSAGauC yng nghynhadledd NASACRE yn Llundain. Roedd NASACRE yn dathlu 30 mlynedd o'r Gymdeithas, yn cefnogi CYSAGau Lloegr.

Er ei bod yn amlwg bod systemau addysg Cymru a Lloegr yn dod yn fwyfwy gwahanol, mae yna hanes cyffredin nodedig sy'n werth ei ddathlu. Hanes sydd a'i ganolbwynt ar y rôl leol sylweddol a roddwyd i GYSAGau a CYSau ar gyfer CGM ac addoli ar y cyd. Hanes lle ffurfiwyd cymdeithas genedlaethol yn ystod y 3 degawd diwethaf ar gyfer gwaith CYSAGau a CYSau gan gydnabod gwerth y lleol ond hefyd y cryfder a'r gefnogaeth a ddaw yn sgil cydweithio ar lefel genedlaethol.

Arweiniodd TaS fyfyrdod tawel, pan ofynnwyd i aelodau oedi am gyfnod byr a dwyn i gof eu hawdurdodau lleol eu hunain yr oeddent yn eu cynrychioli heddiw. Beth sydd ganddyn nhw i'w gynnig i'r cyfarfod hwn a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol heddiw? Beth y gallant fynd ag ef adref gyda nhw i'w rannu?

**3. Ymddiheuriadau**

Ymddiheuriadau gan yr aelod o'r Pwyllgor Gwaith, Edward Evans, Elin Stock a Kate Russell o Cymwysterau Cymru.

**4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar Zoom ar 21 Mawrth 2023**

Newidiadau i'w gwneud:

Tudalen 1 Newid Microsoft TEAMS i Zoom.
Tudalen 2 JHR i'w chynnwys yn cynrychioli Sir Gaerfyrddin.
Tudalen 9 Canolfannau AG Rhanbarthol – newidiadau i'w gwneud, TaS i anfon yr union fanylion at Alice:

- Dileu brawddeg gyntaf yr ail baragraff.
- Camsillafu AREIAC ac AULRE
- Mae angen tynnu RE Today oddi ar restr sefydliadau'r grŵp llywio. (Nid yw RE Today wedi bod ar y grŵp llywio, yn hytrach mae'r 'Canolfannau AG Rhanbarthol' yn cael eu galluogi a'u cefnogi gan RE Today).
- Gellir ychwanegu NATRE at y rhestr yn ogystal â TRS-UK a Culham St Gabriels.

Gyda'r newidiadau uchod, cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2023.

Cynigiodd RS dderbyn y cofnodion ac eiliodd HS.

Bydd TaS yn arwyddo'r cofnodion terfynol a bydd AP yn ffeilio'r cofnodion.

**5. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod diwethaf CCYSAGauC.**

Mae'r enw 'Regional RE Hubs' wedi newid i 'Regional RE Hubs UK'.

Bydd unrhyw faterion eraill sy'n codi yn cael sylw yn yr eitemau ar agenda'r cyfarfod.

**6. Materion Llywodraeth Cymru:**

1) Roedd yr unig gyfarfod ers yr adroddiad diwethaf yn ymwneud â'r adolygiad maes llafur cytunedig anffurfiol a gwblhawyd ddiwedd mis Mawrth. Mae Llywodraeth Cymru (LlC) wedi cofnodi ei diolch i CCYSAGauC am gynnal yr adolygiad o'r meysydd llafur cytunedig ac maent bellach yn y broses o ymateb iddo.

   Mae gennym ddyddiad wedi'i drefnu ar gyfer cyfarfod â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru am hyn ac am faterion penodol megis y newidiadau y mae CCYSAGC wedi gofyn amdanynt i'r adran gyfreithiol ar Hwb.

2) Diweddariad dysgu proffesiynol cenedlaethol – mae CCYSAGauC yn cynhyrchu adnoddau cenedlaethol mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. Cyflwynodd CCYSAGauC y swp cyntaf o restrau chwarae dysgu proffesiynol cenedlaethol yn y Digwyddiad Mewnwelediad Polisi ar 25 Ebrill 2023. Mae'r rhain bellach wedi'u cyhoeddi ar Hwb LlC. Daeth nifer dda i'r digwyddiad hwn gyda dros 100 yn bresennol. Argymhellir bod pob aelod yn ymweld â Hwb LlC i weld y rhestrau chwarae.

   Mae gwaith yn parhau ar y swp nesaf o adnoddau CGM a byddant yn cael eu cyhoeddi yn gynnar yn nhymor yr Hydref. Bydd y rhain yn cynnwys CGM a sgiliau trawsgwricwlaidd – llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn ogystal â rhestr chwarae ar gyfer llywodraethwyr ysgol.

   Bydd trydydd swp o adnoddau yn cwmpasu addysgeg o fewn CGM, a CGM o fewn y dyniaethau.

7. **Cyflwyniad PYCAG: Arfer sy'n dod i'r amlwg o safbwynt ysgol 'ffydd' [Leah Crimes – Pennaeth, Ysgol Santes Ffraid, Dinbych]**

Cafodd cyflwyniad PYCAG ei gyflwyno gan Phil Lord, Ymgynghorydd Sir Ddinbych. Leah Crimes (LC) yw Pennaeth Ysgol Santes Ffraid, Dinbych. Ysgol ar gyfer plant 3-18 oed yw Ysgol Santes Ffraid, sydd wedi'i lleoli ar gyrion Dinbych. Mae'n ysgol ffydd gyda chymeriad crefyddol dynodedig. Mae ymddiriedolaeth yr ysgol yn dynodi cymeriad yr ysgol yn Gatholig, ond nid yw'n gysylltiedig â'r Gwasanaeth Addysg Gatholig nac Esgobaeth Wrecsam. O ganlyniad, nid yw'r ysgol yn dilyn cwricwlwm addysg grefyddol y Gwasanaeth Addysg Gatholig yn uniongyrchol.

Bu Ysgol Santes Ffraid yn gweithio gyda CYSAG/CYS Sir Ddinbych a PL ac mae'r ysgol wedi cynllunio CGM mewn perthynas â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar CGM a maes llafur cytunedig Sir Ddinbych a'i chymeriad crefyddol dynodedig ei hun.

Cyflwynodd LC sampl o waith mewn perthynas â'r cwricwlwm CGM. Pwysleisiodd ei fod yn waith sy'n mynd rhagddo ac nad oedd yn awgrymu ei fod yn arfer gorau. Fe'i crëwyd gan ystyried y maes llafur cytunedig a gan edrych ar hanes Ysgol Santes Ffraid. Maent yn seilio Cwricwlwm i Gymru a chwricwlwm CGM yr ysgol ar eu cynefin gyda hanes yr ysgol a thu hwnt i Sir Ddinbych, ac mae'n cynnwys ystod o safbwyntiau plwraliaethol. Bydd LC yn gweithio gyda PL i fireinio a gwella'r cwricwlwm ar gyfer mis Medi. Mae'n ffordd newydd o addysgu ac wedi cael derbyniad da gan ddysgwyr hyd at flwyddyn 7 sydd wedi mwynhau'r profiad go iawn.

Bydd copi o'r cyflwyniad yn cael ei anfon at aelodau CCYSAGauC. Mae LC hefyd yn hapus i rannu adnoddau.

Diolchodd TaS i LC am y cyflwyniad ysbrydoledig.

LW: Diolchodd i LC am y cyflwyniad. Awgrymodd y byddai newid hinsawdd o waith dyn yn cysylltu'n well â stiwardiaeth yn hytrach na feganiaeth. O ran sancteiddrwydd bywyd, gan fod pleidiol i fywyd (*pro-life*) yn cael ei ystyried yn argyhoeddiad athronyddol anghrefyddol yn y Llys Ewropeaidd, gellid ei gynnwys yn unol â hynny. Er bod Dyneiddiaeth yn seciwlar ar hyn o bryd, yn y gorffennol bu Dyneiddwyr Cristnogol, ac mae'n werth ystyried hyn yn fanylach.

LC: Diolchodd i LB a chytunodd y byddai newid hinsawdd yn cyd-fynd yn dda â stiwardiaeth a chytunodd i edrych i mewn i pleidiol i fywyd. Diolchodd LC i LW am godi'r ddau bwynt hyn ac eglurodd fod rhai agweddau wedi'u crynhoi yn y cyflwyniad. Pwyntiau da i'n helpu i fireinio ein cwricwlwm.

PW: Diolchodd i LC am y cyflwyniad a'r meddwl dwfn sydd wedi'i roi i ddyluniad y cwricwlwm. Gofynnodd PW, sut, mewn ffordd ymarferol, y gwnaethant ddadbacio'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn ystod y broses o gynllunio'r cwricwlwm?

LC: Drwy gynllunio tuag yn ôl ac edrych ar sut y gallai eu plant ddeall y datganiadau hynny a gwneud yn siŵr eu bod yn rhoi'r sgiliau a'r profiadau iddynt allu taro'r datganiadau hynny. Maen nhw'n defnyddio rhaglen o'r enw Taith360 ond yn dal i benderfynu a yw o fudd. Mae'n rhaglen sy'n arddangos holl feysydd y cwricwlwm ac fe'i defnyddir fel arf cynllunio. Mae'n asesu eich cwricwlwm ac yn cynhyrchu allbwn â chodau lliw o gwmpas y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig.

KE: Gofynnodd am gopi o'r sleidiau.

LC: Yn hapus i rannu’r sleidiau gyda’r aelodau ac yn fodlon siarad ag ysgol KE yng Ngheredigion.

LB: A yw Ysgol y Santes Ffraid yn ysgol wirfoddol a reolir yn hytrach nag yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir?

LC: Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yw Ysgol y Santes Ffraid.

TAS: Dymunwyd y gorau i LC wrth iddynt barhau ar eu taith.

**GWEITHREDU:** LC i anfon copi o'r sleidiau at yr ysgrifennydd i'w dosbarthu i aelodau CCYSAGauC.

Eglurodd TaS fod anhawster gyda'r cyfieithiad Cymraeg a chafodd y cyfarfod ei oedi tra daethpwyd o hyd i ateb.

**8. Cymwysterau Cymru (QW)**

RS: Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 14 Mehefin. I baratoi ar gyfer hyn cynhyrchodd Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC fideo byr a rhannodd ymateb drafft y Pwyllgor Gwaith gyda ChYSAGau/CYS. Anogwyd CYSAGau/CYS i ymateb ac i rannu'r wybodaeth gydag athrawon yn eu hawdurdodau lleol.
Ymatebodd y Pwyllgor Gwaith i'r ymgynghoriad ar ran CCYSAGauC gan ddefnyddio barn a sylwadau a rannwyd yn flaenorol. Prif ffocws yr ymateb oedd:
• Nodi bod angen cymhwyster penodol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg am nifer o resymau, megis y rhai a rennir o fewn y drafft a ddosberthir i'r CYSAGau/CYS.
• Pwysleisiwyd pwysigrwydd ennill cymhwyster o fewn pwnc gorfodol a'i werth i'r dysgwyr.
• Dangoswyd sut y byddai'n cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru a'r pedwar diben.
• Pwysleisiwyd y byddai hefyd yn rhoi cyfle am ddilyniant o fewn Crefydd Gwerthoedd a Moeseg hyd at 16 oed.
• Tynnwyd sylw at y broblem bod y TGAU newydd yn dechrau yn 2025 ac y bydd bwlch tan 2027 hyd nes y bydd y cynnig llawn yn dechrau cael ei ddysgu. Beth ellir ei wneud i ymateb i'r bwlch?

Y camau nesaf fydd aros i glywed canlyniadau’r ymgynghoriad. Bydd yn dibynnu ar nifer yr ymatebion a'u sylwadau a yw Cymwysterau Cymru yn awgrymu cymhwyster. Pe baent yn datblygu cymhwyster bydd yn gymhwyster byr ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg a fydd yn eistedd o fewn y cymwysterau sylfaen. Rydym wedi pwysleisio, os caiff cymhwyster o’r fath ei ddatblygu, bydd angen iddo fod ar gael o safon lefel mynediad hyd at lefel 2 er mwyn sicrhau cyfleoedd i bob dysgwr. Os caiff cymhwyster o'r fath ei ddatblygu rydym yn sicr y bydd Cymwysterau Cymru mewn cysylltiad i dderbyn cymorth a chefnogaeth gan aelodau CCYSAGauC wrth iddynt ddatblygu'r cymhwyster. Byddwn yn eich diweddaru ar unrhyw ddatblygiadau pan fyddwn yn clywed mwy.

Bydd dyluniad terfynol y TGAU newydd yn cael ei gyhoeddi i'w ddatblygu gan CBAC ar 26 Mehefin.

TaS: Gobeithio bod Cymwysterau Cymru wedi cael nifer fawr o ymatebion, ac y bydd hyn yn effeithio ar y canlyniad. Pwysleisiodd TaS bwysigrwydd ymateb i ymgynghoriadau. Mae CCYSAGauC yn rhoi cymorth i GYSAGau ac CYSau wrth ymateb i ymgynghoriadau.

**9. Cynhadledd EFTRE [Awst 2023]**

Ym mis Mawrth cytunodd CCYSAGauC i ariannu un athro yn llawn i fynychu'r gynhadledd ym mis Awst. Cadarnhaodd TaS y derbyniwyd un datganiad o ddiddordeb gan Alice Parry, Ysgrifennydd CCYSAGauC. Roedd TaS yn falch iawn y byddai AP yn gallu bod yn bresennol

DRAFT

a gofynnodd i AP adrodd yn ôl i'r aelodau ar ôl y gynhadledd.

**10. Diweddariadau:**

- **Adroddiad gan y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 17 Mai 2023**

  TaS – ymdrinnir â'r rhan fwyaf o bethau ar yr agenda.

  Cytunodd y Pwyllgor Gwaith i gynnal cynhadledd CCYSAGauC yn y flwyddyn ysgol i ddod. Mae cynllunio wedi dechrau a bydd yn cynnwys dysgu proffesiynol cenedlaethol ac astudiaethau achos. Nod CCYSAGauC yw creu digwyddiad cyffrous ac arloesol. Fel sy'n arferol, bydd CCYSAGauC yn gweithio gyda PYCAG o ran cynllunio. Bydd CCYSAGauC yn ariannu'r gynhadledd yn llawn. Nid yn unig y bydd ar ffurf diwrnod cynhadledd llawn ond bydd cyfres o seminarau ar-lein yn arwain at y gynhadledd. Bydd y rhain i gyd ar gael am ddim i GYSAGau/CYSau sy'n aelodau a'u hysgolion / ymarferwyr. Mwy o wybodaeth i'w rhannu yn nhymor yr hydref.

  Cytunwyd i ddyfarnu honorariwm i Ysgrifennydd Cynorthwyol CCYSAGauC i gydnabod y gwaith aruthrol sy'n cael ei wneud yn y rôl hon.

- **Estyn**

  TaS: Yng nghyfarfod y gwanwyn darparodd Estyn bapur briffio defnyddiol ar arweiniad arolygu Estyn ar gyfer ysgolion.

  AMT: Diolchodd i CCYSAGC am wahodd Estyn i'r cyfarfod ac roedd yn falch o glywed bod y papur briffio yn ddefnyddiol. Adroddodd AMT fod Estyn yn y broses o baratoi'r fframwaith arolygu newydd ar gyfer 2024. Mae'r ymgynghoriad ar agor ar wefan Estyn ac anogodd AMT bawb i ymateb. Bydd Estyn yn hapus i roi diweddariad byr yn y cyfarfod nesaf.

  Diolchodd TaS i AMT a derbyniodd gynnig Estyn i roi adborth yn y cyfarfod nesaf. Pwysleisiodd TaS bwysigrwydd ymateb i ymgynghoriadau.

- **CBAC**

  CO: Diolchodd i CCYSAGauC am y gwahoddiad i'r cyfarfod. Mae CBAC reit ynghanol arholiadau llawn tan ddiwedd mis Gorffennaf ac ni all siarad am gyfres bresennol arholiadau haf 2023.

  Cadarnhaodd CO fod gostyngiad wedi bod yn nifer yr ymgeiswyr ar draws TGAU, UG a Safon Uwch Astudiaethau Crefyddol.

  Dim ond Astudiaethau Crefyddol TGAU yw cyfrifoldeb CO, a bydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi ar 24 Awst, 2023.

  Yn dilyn eitem Cymwysterau Cymru ar AG , mae CBAC yn aros am y deunyddiau diweddar gan CC o 26 Mehefin, 2023.

  Mae'n werth nodi bod CBAC yn y broses o benodi ymgynghorydd pwnc ar gyfer Astudiaethau Crefyddol a hefyd yn edrych am gefnogaeth i helpu gyda'r gwaith o ysgrifennu deunyddiau. Mae'r hysbyseb yn cael ei harddangos ar wefan CBAC. Maent yn chwilio am awduron pwnc ar gyfer y fanyleb newydd. Y cylch gwaith yw helpu i gynhyrchu cynnwys y fanyleb yn unol ag amlinelliad y cymhwyster i gynhyrchu tasgau asesu, cynlluniau marcio ac ati. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Gwener 7 Gorff. 2023.

Yn Nhymor yr Hydref, bydd y Dysgu Proffesiynol (DPP gynt) yn cynnwys digwyddiadau wyneb yn wyneb a drefnwyd ar gyfer Caerdydd a Llandudno a bydd amserlen digwyddiadau PL Cardarg (1.25.53 munud) yn cael ei chynnal yng Ngogledd Cymru.

Diolchodd TaS i CO am y diweddariad defnyddiol.

- **Cyngor Addysg Grefyddol - REC**
  KR : Roedd hi'n hanner canmlwyddiant y Cyngor ddechrau mis Mai. Cynhaliwyd digwyddiad mawr yn Neuadd Conway yn Llundain, cartref The Ethical Union. Cafwyd cyflwyniad gan Gomisiynydd Plant Lloegr a oedd yn athrawes AG ei hun.

  Yn y cyfarfod rhoddodd KR gyflwyniad ar y cynnydd yng Nghymru gyda'r cwricwlwm newydd gan gydnabod yr hoffai'r rhan fwyaf o'r gymuned AG yn Lloegr fod yn symud i'r un cyfeiriad â Chymru a chael cefnogaeth gref gan y Llywodraeth yn cydnabod pwysigrwydd CYSAGau ac CYS.

  Ar ddiwedd mis Ebrill, cafodd y Cyngor gyfarfod gyda chynrychiolwyr o Sefydliadau Cymreig sy'n rhan o'r REC: hynny yw, CCYSAGauC, MAGC a'r Eglwys yng Nghymru. Roeddem yn gallu rhoi ein persbectif iddynt ynghylch a ydym yn credu bod y REC yn lle i Gymru gael ei chynrychioli gan fod cwricwlwm y ddwy wlad yn amrywio cymaint. Nodwyd ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn cydnabod Cymru ym mhopeth a wna ac nad yw'n dod yn sefydliad sy'n canolbwyntio ar Loegr.

  Bydd y REC nawr yn gweithio ar sut y gall Cymru gael ei chynrychioli'n llawnach yn y gwaith y mae'r Cyngor yn ei wneud.

  Diolchodd TaS i KR am y diweddariad.

- **EFTRE**
  Mae PL yn annog pawb i edrych ar y wefan; mae adroddiadau diddorol ar gael o'r gwledydd. Mae'r un ar gyfer Cymru wedi'i gwblhau ac yn aros i'w lwytho i fyny i'r wefan.
  Mae fideos hyfforddi hefyd ar gael ar wefan EFTRE.
  TaS: Diolchodd i PL am gynrychioli CCYSAGauC ar fwrdd EFTRE.

- **MAGC**
  Dim cynrychiolydd yn bresennol.

- **PYCAG**
  Cyfarfu PYCAG yr wythnos diwethaf. Hwn oedd cyfarfod cyntaf PW yn ôl ac mae PL wedi bod yn mynd ar ei rhan.

  Mae PYCAG hefyd wedi ymateb i ymgynghoriad Cymwysterau Cymru yn unol ag ymateb CCYSAGauC.
  Mae PYCAG yn falch iawn ac yn gyffrous bod CCYSAGauC yn bwrw ymlaen â'r gynhadledd ac yn edrych ymlaen at gymryd rhan lawn yn y broses gynllunio.

  Ailsefydlwyd y gweithgorau yr wythnos diwethaf i edrych ar y materion mwyaf taer. Yn ogystal â'r cyfarfodydd tymhorol, mae PYCAG yn mynd i dreialu cyfarfod unwaith y mis gyda sesiynau min nos ychwanegol i weithio ar brosiectau. Os oes unrhyw beth yr hoffai aelodau CCYSAGauC i PYCAG edrych arno, yna cysylltwch â PW.

  Mae pedwar mater wedi'u nodi i CCYSAGauC eu hystyried:
  1) Cyfarfu'r grŵp yr wythnos diwethaf i drafod Adroddiadau Blynyddol CYSAG/CYS. Hoffai PYCAG i CCYSAGauC ysgrifennu llythyr at Lywodraeth Cymru yn gofyn am ddiweddariad ar statws fersiynau cyfredol 1996 a 2006 o ddogfen ganllawiau yr

adroddiad blynyddol a gynhyrchwyd gan ACCAC. Mae PYCAG yn ystyried bod y ddogfen hon wedi dyddio o ran cynnwys iaith, arfer cyfredol, cwricwlwm ac ati.

Cytunodd aelodau WASCRE â'r cais hwn.

2) Mae CCYSAGauC yn cynnal cyfarfod â LlC bob tymor, gyda chynrychiolydd PYCAG. Gofynnodd PW a oedd cyfarfod wedi'i drefnu cyn diwedd y tymor i drafod yr adroddiadau blynyddol.

Atebodd TaS fod gan CCYSAGauC gyfarfod wedi'i drefnu gydag agenda benodol ond y bydd yn cysylltu â PW i weld beth y gellir ei gynnwys o fewn amserlen y cyfarfod hwnnw.

3) Yn ddiweddar bu PYCAG yn trafod natur CGM yn y cwricwlwm newydd a sut y'i datblygwyd yn y broses ysgrifennu a sut y cafodd ei ysgrifennu i fod yn ddisgyblaeth pwnc trylwyr sydd â chydraddoldeb â disgyblaethau eraill y dyniaethau. Arweiniodd hyn at PYCAG i ystyried ymgymryd â darn o waith a fyddai'n mynd i'r afael â'r mythau a'r camddealltwriaeth sydd wedi codi, neu a allai godi, ynghylch CGM. Roedd PW yn meddwl tybed a fyddai gan CCYSAGauC ddiddordeb yn y ddogfen hon 'mythau a chamddealltwriaeth' efallai fel Cwestiynau Cyffredin i'w harddangos ar y wefan?

Dywedodd TaS y byddai gan CCYSAGauC ddiddordeb mewn gweld y ddogfen ar ôl iddi gael ei datblygu. Cytunodd aelodau CCYSAGauC.

4) Yn ystod y cyfarfod diweddar, lluniodd DG mewn cysylltiad â HJ restr chwarae ar gyfer aelodau CYSAG/SAC er mwyn eu helpu i ddarparu DP ar eu rolau a'u cyfrifoldebau. Gofynnodd DG i PYCAG sicrhau ansawdd y rhestr chwarae. Roedd PW yn meddwl tybed a fyddai o ddiddordeb i Gymdeithas CYSAGau Cymru gynnwys hon ar y wefan neu ei rhannu â ChYSAGau/CYSau eraill er mwyn iddynt allu cyrchu'r rhestr chwarae.

TaS: Mae hwn yn swnio fel adnodd i'w groesawu'n fawr. Gallai fod yn ddefnyddiol hefyd edrych i weld a all ymuno â maes perthnasol ar Hwb Llywodraeth Cymru.

LB: Yn cofio'r cwestiwn am arweiniad y Cyngor Eglwysi Rhyddion a'r drafodaeth ynghylch a allai CCYSAGauC roi hwn ar ei wefan hefyd. Bydd yn ddefnyddiol edrych ar y rhestr chwarae yn gyntaf.
Cydnabyddir bod proses gyfan o sicrhau ansawdd ar gyfer Hwb a byddai CCYSAGauC yn chwarae rhan yn hyn o ystyried pwnc y rhestr chwarae.

Bu PYCAG hefyd yn trafod y ddogfen 'Felly rydych chi'n ystyried ymuno â'ch CYSAG lleol' cafodd hon ei diweddaru gan RS a PW ychydig yn ôl, ond mae angen ei hailysgrifennu oherwydd bod deddfwriaeth wedi newid. Ai dyma'r amser iawn i ddiweddaru'r ddogfen hon.

TaS: Yn cytuno mai dyma'r amser iawn ac yn awgrymu bwrw ymlaen.

**GWEITHREDU** : Aelodau CCYSAGauC i gysylltu â PW gydag unrhyw beth yr hoffent i PYCAG weithio arno.

- **Rhwydwaith Rhyng-ffydd**
  Adroddodd LJ fod yr wythnos Rhyng-ffydd yn cael ei chynnal rhwng 12 a 19 Tachwedd 2023. Mae'r Rhwydwaith yn awyddus i gael ysgolion a sefydliadau i baratoi'n gynnar ac i ddechrau meddwl sut i ddefnyddio'r wythnos hon fel llwyfan i amlygu a dyfnhau dimensiynau crefydd a chred rhyng-ffydd eu gwaith. Ceir llawer o syniadau am weithgareddau ar y wefan Rhyng-ffydd .

  Ni fydd Cymunedau Tai yr Adran Ffyniant Bro yn ariannu'r Rhwydwaith rhyng-ffydd bellach ac nid yw wedi bod yn gwneud ers mis Ebrill 2023. Mae Bwrdd Ymddiriedolwyr a staff y

Rhywdwaith yn gweithio i fynd i'r afael â'r sefyllfa heriol hon ac mae'r Bwrdd wedi cyfarfod yn wythnosol i adolygu'r sefyllfa ariannol yn ofalus, gan gymryd camau priodol fel y gall gwaith hanfodol y Rhwydwaith barhau. Maen nhw wedi gofyn i gyrff sy'n aelodau ysgrifennu at weinidogion a ffigyrau cyhoeddus eraill i ddangos cefnogaeth i'r Rhwydwaith Rhyng-ffydd.

TaS: Bydd y cais hwn yn cael ei ddwyn yn ôl i Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC i ystyried ysgrifennu llythyr ac at bwy.

CA: Awgrymir cysylltu â Chyngor Rhyng-ffydd Cymru i gael newyddion mwy lleol am yr wythnos Ryng-ffydd.

**11. Gohebiaeth**

- E-bost oddi wrth CA gyda thaflen am brosiect peilot fideo byr i bobl ifanc.
  CA : Mae hon yn fenter gan Gyngor Rhyng-ffydd Cymru sy'n gofyn i bobl ifanc greu ffilmiau byr o gwmpas gwasanaeth i'r gymuned, mewn unrhyw ffordd y dymunant. Gobeithir dangos y rhain rywbryd i ddathlu pen-blwydd y mudiad yn 20+ eleni.

  TaS : Diolchodd i CA am rannu'r fenter hon ac awgrymodd efallai y byddai ymgynghorwyr am fynd â hyn i'w CYSAGau a'u CYSau lleol a nodi ysgolion a allai fod eisiau cymryd rhan.

- E-bost gan PYCAG ynghylch y 4 pwynt a godwyd yn eitem 6.

**12. Unrhyw fater arall (i'w gytuno cyn y cyfarfod gyda'r Cadeirydd)**

HS: Ar ran y Pwyllgor, diolchodd HS i TaS fel Cadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor Gwaith am eu cynrychiolaeth mewn cyfarfodydd ac am adrodd ar ran CCYSAGauC. Mae hyn i gyd yn golygu cryn amser ac mae'n bwysig iawn bod yr arbenigedd hwn yn cael ei roi ar eu rhan.

TaS: Diolchodd i HS am ei gefnogaeth a'i gydnabyddiaeth.

**13. Dyddiad y cyfarfod nesaf: Tymor yr Hydref,**

Bydd hwn yn gyfarfod Zoom ddydd Mercher 25 Hydref 2023 dan ofal RhCT.

Diolchodd TaS i awdurdod lleol Sir Ddinbych am letya'r cyfarfod. Daeth y cyfarfod i ben am 11.50pm.

DRAFT

Mae’r ymgynghoriad ar y cymhwyster newydd arfaethedig, Astudiaethau Crefyddol TGAU (dechrau dysgu 2026) yn agor heddiw ar wefan CBAC. Mae’n bwysig fod ymarferwyr yn ymwybodol o’r ymgynghoriad ac yn rhannu eu barn ar y cynigion drwy’r arolwg ar-lein.

Felly, a fyddech cystal â rhannu’r dolenni isod gyda’ch CYSAG/CYS ac athrawon.

Dolen i’r ddogfen ymgynghorol: gcse-religious-studies-qualification-outline-consultation-version-w.pdf (cbac.co.uk)

Dolen i’r arolwg adborth: Cymwysterau TGAU wedi’u Gwneud-i-Gymru a chymwysterau perthynol: Ymgynghoriad ar amlinelliadau o'r pynciau  TGAU: ASTUDIAETHAU CREFYDDOL Survey (surveymonkey.co.uk)

Annwyl Glerc i GYSAG / GYS

Mae CCYSAGauC yn llunio rhaglen gyffrous ar gyfer ei chynhadledd yn 2024 a fydd yn cynnwys seminarau rhyngweithiol ar-lein rhad ac am ddim, yn ogystal â digwyddiad diwrnod y gynhadledd gorfforol. Hoffem glywed gan eich CYS am y math o seminarau yr hoffech gael eu cynnwys.

Byddem yn ddiolchgar i dderbyn eich ymatebion trwy holiadur ar-lein (dolenni isod).
Dyddiad cau: 30 Tachwedd.

Cymraeg:

https://forms.office.com/e/23GF0c9RUG

Saesneg:

https://forms.office.com/e/u6HV5uNHY2